Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Cadeirydd:
Gareth Pierce
Prif Weithredwr:
Dr Ioan Matthews

Ffôn:
01267 610400
Ebost:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Senedd Cymru

Trwy e-bost: SeneddDGCh@senedd.cymru

11 Medi 2020

Annwyl Aelodau’r Pwyllgor

**Ymchwiliad i’r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar y Gymraeg**

Hoffwn gyflwyno ymateb ar ran y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) i gais Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru am wybodaeth ynghylch sut mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y Gymraeg.

Sefydlwyd y Coleg yn 2011. Y Coleg sy’n arwain datblygiad addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru. Mae’r Coleg yn cyflawni hyn drwy weithio’n effeithiol mewn partneriaeth â phrifysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau er mwyn adeiladu cyfundrefn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg cynhwysol o’r radd flaenaf. Mae’r galw am weithlu dwyieithog ar gynnydd ac mae gan y Coleg gyfraniad pwysig i’w wneud er mwyn gwella sgiliau a chynyddu defnydd iaith o fewn ein cymunedau a’n gweithleoedd.

Byddwn yn canolbwyntio ein hymateb i’r ymchwiliad ar effaith y pandemig ar y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol gan ystyried y sectorau addysg uwch ac addysg bellach a phrentisiaethau ar wahân. Byddwn hefyd yn amlinellu’r camau mae’r Coleg wedi eu cymryd i geisio cefnogi’n sefydliadau partner.

Addysg Uwch

Yn ystod y cyfnod clo, cynhaliwyd cyfarfodydd cynllunio arbennig rhwng y Coleg a phob prifysgol ar draws Cymru er mwyn ceisio deall yn well yr heriau oedd yn wynebu’r sefydliadau addysg uwch a myfyrwyr o ran y ddarpariaeth Gymraeg yn sgil y pandemig. Cynhaliwyd cyfarfod o’n Bwrdd Academaidd hefyd sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r prifysgolion a myfyrwyr, ac mae swyddogion y Coleg wedi ymuno â chyfarfodydd cangen ym mhob prifysgol.

Mae’r heriau ariannol sy’n wynebu’r sector addysg uwch yn amlwg iawn ac mae cryn dipyn wedi ei adrodd yn y newyddion am hyn. Nid oes bwriad gan y Coleg ail-adrodd yr heriau yma yn ein hymateb ni, yn hytrach, hoffem ffocysu ar ymateb y Coleg i’r heriau a nodwyd gan y prifysgolion a’r modd yr ydym wedi mynd ati i gefnogi prifysgolion a myfyrwyr i gynnal y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dros y cyfnod heriol nesaf.

Yn gyntaf, mewn ymateb i ofidiau’r prifysgolion ynglŷn â heriau recriwtio myfyrwyr ar gyfer mis Medi, yn mis Mehefin cyhoeddoedd y Coleg ein bod yn ymestyn ein cynllun ysgoloriaethau cymhelliant, gwerth £1,500 dros dair blynedd, i *bob* myfyriwr sy’n dewis astudio o leiaf 40 credyd d

Cymraeg
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Gymraeg. Fel arfer mae tua 200 o fyfyrwyr newydd yn derbyn ysgoloriaeth drwy'r Coleg bob blwyddyn ond eleni rydym yn targedu hyd at 500 o fyfyrwyr. Mae ymateb darpar fyfyrwyr i'r cynllun hyd yma wedi bod yn gadarnhaol a byddwn yn monitro ceisiadau yn ofalus hyd at y dyddiad cau i sicrhau bod cynifer o fyfyrwyr a phosib ar draws yr holl ddisgyblaethau cymwys yn elwa o'r cynllun. Ceir rhagor o wybodaeth yma.

Yn ail, yn dilyn adborth gan y prifysgolion ynglŷn â heriau yn ymwneud ag addysgu cyfunol ac o bell, rydym wedi cydweithio gyda nhw ac wedi cymryd rôl arweiniol wrth gydlynu prosiect er mwyn sicrhau bod adnoddau digidol ac ar-lein addas ar gael i gefnogi dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Fel cam cyntaf y prosiect bu'r Coleg yn ymgynghori cyn yr haf â darlithwyr er mwyn adnabod bylchau mewn adnoddau digidol yn y tymor byr, gyda'r bwriad o gomisiynu prosiectau llai mewn cyfnod cymharol fyr. Mae'r Coleg yn awr yn awyddus i gefnogi'r galw am adnoddau ar-lein mwy cynhwysfawr ar gyfer y tymor canolig. Gobaith y Coleg yw cydlynu prosiect uchelgeisiol i gynhyrchu deunyddiau dysgu cyfunol o ansawdd uchel mewn nifer penodol o bynciau, a fydd ar gael yn gydweithredol i'r darparwyr ar draws y sector. Bydd angen adnoddau ychwanegol i gyflawni hyn ond nod y Coleg ydy sicrhau nad yw diffyg deunyddiau dysgu yn effeithio ar allu myfyrwyr i gael profiad cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf yn 2020/21.

Ac yn drydydd, eto mewn ymateb i gynlluniau'r prifysgolion i symud tuag at fodel dysgu cyfunol, mae'r Coleg yn arwain ar gynllun i gynnig hyfforddiant i'r gymuned ddarlithio cyfrwng Cymraeg ar ddulliau addysgu newydd, ac yn benodol dysgu cyfunol a dysgu ar-lein. Ymunodd 66 o ddarlithwyr ac ymarferwyr mewn sesiwn hyfforddiant byw yn mis Gorffennaf ac mae dros 150 wedi gwylio recordiad o'r sesiwn. Mae'r adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol a bydd y Coleg yn cynllunio rhagor o sesiynau rhithiol ar gyfer y gymuned ddarlithio i'w cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd i ddod.

Mae'r heriau sy'n wynebu'r sector addysg uwch yng Nghymru a thu hwnt yn rhai dyrys dros ben ond hyderwn y bydd y tri chynllun yma yn cefnogi prifysgolion Cymru a myfyrwyr i barhau i gynnig a mwynhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Addysg Bellach a Phrentisiaethau

Mae'r Coleg wedi cynnal ein perthynas agos gyda'r colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau yn ystod y cyfnod clo. Mae cyfres o gyfarfodydd wedi digwydd gyda chynrychiolwyr o'r sector ac mae'n haelodaeth o Bwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd ColegauCymru wedi bod yn hanfodol er mwyn sicrhau fod darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn cael ei hystyried a'i thrafod ar lefel strategol.

Wrth i golegau a darparwyr prentisiaethau hefyd symud at ddulliau addysgu ar-lein, mae wedi dod yn amlwg iawn mai diffyg adnoddau Cymraeg a dwyieithog digidol ydy un o'r prif heriau sy'n wynebu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sector yn y tymor byr. Er mwyn mynd i'r afael â hyn mae'r Coleg wedi casglu'r adnoddau perthnasol sydd eisoes yn bodoli o fewn y Coleg, a hefyd adnoddau gan sefydliadau eraill megis colegau a darparwyr unigol, a'u gosod ar y Porth Adnoddau newydd a lansiwyd gan y Coleg yn mis Mawrth eleni. Er bod hyn yn ddatblygiad pwysig ac i'w groesawu, mae'n hanfodol bod cynllun cenedlaethol mewn lle yn gyflym i adnabod a chomisiynu adnoddau newydd dros y cyfnod nesaf er mwyn diwallu anghenion dysgwyr ac addysgwyr. Mae'r Coleg felly yn cydlynu prosiect wedi ei ariannu gan y Llywodraeth i greu adnoddau dysgu cyfunol ar gyfer y tri maes blaenoriaeth sef Iechyd a Gofal, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Un o bryderon mwyaf y Coleg yw y bydd dysgwyr yn llai tebygol o ddewis darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog wrth ddechrau mewn coleg neu brentisiaeth yn mis Medi gan nad ydy nifer ohonynt wedi bod mewn awyrgylch Gymraeg ers dechrau'r cyfnod clo. Mae'r Coleg yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth, ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau i sichrau y bydd y diwrnodau agored rhithwyr (ymgyrch a arweinir gan Lywodraeth Cymru) yn adlewyrchu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog sydd ar gael ac yn annog dysgwyr i fanteisio ar hynny. Ymhellach, mae'r Coleg wedi lansio ymgyrch "Mae gen ti fantais" yn mis Medi i hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio ac astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Yn y tymor canol mae'r Coleg yn parhau i ofidio am brinder staff sy'n medru siarad ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector ôl-16, ac yn benodol yn y meysydd blaenoriaeth. Mae'r Coleg wedi dyfarnu pedwar grant eleni i ddatblygu darpariaeth mewn pedwar coleg ac yn parhau i gefnogi deiliaid grantiau a ddyfarnwyd yn 2019, ond bydd angen buddsoddiad ychwanegol er mwyn gwireddu Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cymraeg y Llywodraeth.

Diolch i chi fel Pwyllgor am y cyfle i gyflwyno ymateb y Coleg i'r ymgynghoriad pwysig hwn. Bydd y Coleg yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn ein prifysgolion ac yn ein colegau addysg bellach wrth i'r tymor newydd ailddechrau a byddwn yn hapus i gyfathrebu gyda'r pwyllgor maes o law ynglŷn ag unrhyw bryderon sy'n codi ynglŷn â'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog.  Mae croeso i chi gysylltu â Gwenllian Griffiths ar g.griffiths@colegcymraeg.ac.uk am ragor o wybodaeth am gynlluniau'r Coleg.

Yn gywir,



Dr Ioan Matthews
Prif Weithredwr